



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 98 (Cy. 47)

2016 No. 98 (W. 47)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

**Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod
Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016**

**The Regulation of Child Minding
and Day Care (Wales) Order 2016**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

O dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rhaid i berson sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd i blant o dan wyth oed fod wedi ei gofrestru â Gweinidogion Cymru.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, a wneir o dan adran 19(4) o'r Mesur, yn diwygio adran 19 o'r Mesur i estyn y gofyniad i gofrestru i bersonau sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd i blant o dan ddeuddeng oed. Mae hefyd yn gwneud diwygiad au canlyniadol.

Mae erthyglau 7 a 11 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod person sydd wedi ei gofrestru yn union cyn 1 Ebrill 2016 i ofalu am blant o dan wyth oed neu i ddarparu gofal iddynt i gael ei drin ar 1 Ebrill 2016 ac ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi ei gofrestru i ofalu am blant o dan ddeuddeng oed neu i ddarparu gofal iddynt.

Mae erthyglau 8 a 12 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys pan fo gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd yn torri ei amodau cofrestru o ganlyniad i estyn cofrestriad.

O dan erthyglau 9 ac 13 o'r Gorchymyn hwn, mae ceisiadau i gofrestru y mae Gweinidogion Cymru yn eu cael cyn 1 Ebrill 2016 i gael eu trin fel pe baent wedi eu cael ar 1 Ebrill 2016.

Mae erthygl 14 yn darparu nad yw estyn cofrestriad yn erthygl 3 yn effeithio ar atal cofrestriad person dros dro.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010, a person who acts as a child minder or provides day care for children under the age of eight must be registered with the Welsh Ministers.

Article 3 of this Order, made under section 19(4) of the Measure, amends section 19 of the Measure to extend the registration requirement to persons who act as a child minder or provide day care for children under the age of twelve. It also makes consequential amendments.

Articles 7 and 11 of this Order provide that a person who is registered immediately before 1 April 2016 to provide care for children under the age of eight is to be treated on and after the 1 April 2016 as registered to provide care for children under the age of twelve.

Articles 8 and 12 of this Order apply where a child minder or day care provider is in breach of their conditions of registration as a result of the extension of the registration requirement.

Under articles 9 and 13 of this Order, applications for registration received by the Welsh Ministers before 1 April 2016 are to be treated as though received on 1 April 2016.

Article 14 provides that the extension of the registration requirement in article 3 does not affect the suspension of a person's registration.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

This Order comes into force on 1 April 2016.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Education and Public Services Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2016 Rhif 98 (Cy. 47)

2016 No. 98 (W. 47)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

**Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod
Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016**

**The Regulation of Child Minding
and Day Care (Wales) Order 2016**

Gwnaed 27 Ionawr 2016
Yn dod i rym 1 Ebrill 2016

Made 27 January 2016
Coming into force 1 April 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 19(4) a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(1).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon them by sections 19(4) and 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(1).

Yn unol ag adran 74(5) o'r Mesur, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad cyn iddo gael ei wneud.

A draft of this Order has been laid before, and approved by resolution of, the National Assembly for Wales before being made, in accordance with section 74(5) of the Measure.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Regulation of Child Minding and Day Care (Wales) Order 2016.

(2) This Order comes into force on 1 April 2016.

(3) This Order applies in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y dyddiad trosglwyddo” (“*the transfer date*”) yw 1 Ebrill 2016;

ystyr “y Mesur” (“*the Measure*”) yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; ac

Interpretation

2. In this Order—

“the 2010 Regulations” (“*Rheoliadau 2010*”) means the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010(2);

“the Measure” (“*y Mesur*”) means the Children and Families (Wales) Measure 2010; and

(1) 2010 mccc 1.

(1) 2010 nawm 1.
(2) S.I. 2010/2574.

ystyr “Rheoliadau 2010” (“*the 2010 Regulations*”) yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010(1).

“the transfer date” (“*y dyddiad trosglwyddo*”) means 1 April 2016.

Diwygio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

3. Yn adran 19 o’r Mesur (ystyr “gwarchod plant” a “gofal dydd i blant”)—

- (a) yn is-adran (2), yn lle “wyth” rhodder “ddeuddeng”;
- (b) yn is-adran (3), yn lle “wyth” rhodder “ddeuddeng”.

Amendments to the Children and Families (Wales) Measure 2010

3. In section 19 of the Measure (meaning of “child minding” and “day care for children”)—

- (a) in subsection (2), for “eight” substitute “twelve”;
- (b) in subsection (3), for “eight” substitute “twelve”.

Diwygio’r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007

4. Yn erthygl 5(3)(b) (gofal plant cymwys) o’r Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007(2) yn lle “wyth mlwydd oed” rhodder “deuddeng oed”.

Amendment to the Tax Credits (Approval of Child Care Providers) (Wales) Scheme 2007

4. In article 5(3)(b) (qualifying child care) of the Tax Credits (Approval of Child Care Providers) (Wales) Scheme 2007(1) for “aged eight years” substitute “aged twelve years”.

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

5. Yn rheoliad 3(3) o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(3) yn lle “o dan wyth oed” rhodder “o dan ddeuddeng oed”.

Amendment to the Children’s Homes (Wales) Regulations 2002

5. In regulation 3(3) of the Children’s Homes (Wales) Regulations 2002(2) for “under eight” substitute “under twelve”.

Darpariaeth drosiannol

Transitional provision

Gwarchodwyr plant

6. Mae’r darpariaethau yn erthyglau 7 i 9 o’r Gorchymyn hwn yn gymwys i berson sydd wedi ei gofrestru’n warchodwr plant yn union cyn y dyddiad trosglwyddo gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o’r Mesur.

Child minders

6. The provisions in articles 7 to 9 of this Order apply to a person who is registered immediately before the transfer date by the Welsh Ministers as a child minder under Part 2 of the Measure.

Cofrestru

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae person sydd wedi ei gofrestru’n warchodwr plant i blant o dan wyth oed i gael ei drin ar y dyddiad trosglwyddo ac ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi gwneud cais i gofrestru i ofalu am blant o dan ddeuddeng oed a bod y cais hwnnw wedi ei ganiatáu.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn cysylltiad â pherson a oedd, cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi gofyn i Weinidogion Cymru ganslo ei gofrestruad yn warchodwr plant o dan Ran 2 o’r Mesur.

Registration

7.—(1) Subject to paragraph (2), a person who is registered as a child minder for children under the age of eight is to be treated on and after the transfer date as having applied for and been granted registration to look after children under the age of twelve.

(2) Paragraph (1) does not apply in respect of a person who, before the transfer date, communicated to the Welsh Ministers a request to cancel their registration as a child minder under Part 2 of the Measure.

(1) O.S. 2010/2574 (Cy.214).
(2) O.S. 2007/226 (Cy. 20).
(3) O.S. 2002/327 (Cy.40).

(1) S.I. 2007/226 (W. 20).
(2) S.I. 2002/327 (W.40).

Amodau cofrestru

8.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn darparu gwasanaeth gwarchod plant o dan amgylchiadau a fyddai, pe bai'n cael ei ddarparu ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn groes i amodau cofrestru'r person hwnnw a osodwyd o dan adran 29 o'r Mesur oherwydd effaith erthygl 7(1) o'r Gorchymyn hwn.

(2) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo yn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru i amrywio amodau cofrestru cyn y dyddiad trosglwyddo, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais hwnnw o fewn cyfnod o bum mis i'r dyddiad trosglwyddo.

(3) Yn ystod y cyfnod a bennir ym mharagraff (2)—

- (a) nid yw person sydd wedi cyflwyno cais i amrywio amodau cofrestru yn agored i'w erlyn o dan adran 29(4) o'r Mesur pan fo'r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 7(1) o'r Gorchymyn hwn;
- (b) nid yw adran 31(2)(b) o'r Mesur yn gymwys pan fo'r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 7(1) o'r Gorchymyn hwn.

Ceisiadau i gofrestru: ceisiadau nad ydynt wedi eu penderfynu

9.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gwneud cais i gofrestru'n warchodwr plant ond nad yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais y person.

(2) Mae gan gais a wneir cyn y dyddiad trosglwyddo yr un effaith â chais a wneir ar y dyddiad trosglwyddo.

Darparwyr gofal dydd

10. Mae'r darpariaethau yn erthyglau 11 i 13 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i berson sydd wedi ei gofrestru'n ddarparwr gofal dydd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o'r Mesur.

Cofrestru

11.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae person sydd wedi ei gofrestru'n ddarparwr gofal dydd i blant o dan wyth oed i gael ei drin ar y dyddiad trosglwyddo ac ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai wedi gwneud cais i gofrestru i ddarparu gofal i blant o dan ddeuddeg oed a bod y cais hwnnw wedi ei ganiatáu.

Conditions of registration

8.—(1) This article applies where, immediately before the transfer date, a person provides child minding in circumstances in which, if it were to be provided on or after that date it would be contrary to that person's conditions of registration imposed under section 29 of the Measure because of the effect of article 7(1) of this Order.

(2) Where a person to whom paragraph (1) applies submits an application to the Welsh Ministers to vary conditions of registration before the transfer date, the Welsh Ministers must determine that application within a period of five months of the transfer date.

(3) During the period specified in paragraph (2)—

- (a) a person who has submitted an application to vary conditions of registration is not liable to prosecution under section 29(4) of the Measure where the breach of conditions is a consequence of the effect of article 7(1) of this Order;
- (b) section 31(2)(b) of the Measure does not apply where the breach of conditions is a consequence of the effect of article 7(1) of this Order.

Applications for registration: undetermined applications

9.—(1) Paragraph (2) applies where, before the transfer date, a person makes an application to register as a child minder but the Welsh Ministers have not determined the person's application.

(2) An application made before the transfer date has effect as an application made on the transfer date.

Day care providers

10. The provisions in articles 11 to 13 of this Order apply to a person who is registered immediately before the transfer date by the Welsh Ministers as a day care provider under Part 2 of the Measure.

Registration

11.—(1) Subject to paragraph (2), a person who is registered as a day care provider for children under the age of eight is to be treated on and after the transfer date as having applied for and been granted registration to provide care for children under the age of twelve.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn cysylltiad â pherson a oedd, cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi gofyn i Weinidogion Cymru ganslo ei gofrestrriad yn ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur.

Amodau cofrestru

12.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn darparu gofal dydd i blant o dan amgylchiadau a fyddai, pe bai'n cael ei ddarparu ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn groes i amodau cofrestru'r darparwr gofal dydd hwnnw a osodwyd o dan adran 29 o'r Mesur oherwydd effaith erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwn.

(2) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo yn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru i amrywio amodau cofrestru cyn y dyddiad trosglwyddo, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais hwnnw o fewn cyfnod o bum mis i'r dyddiad trosglwyddo.

(3) Yn ystod y cyfnod a bennir ym mharagraff (2)—

- (a) nid yw person sydd wedi cyflwyno cais i amrywio amodau cofrestru yn agored i'w erlyn o dan adran 29 o'r Mesur pan fo'r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwn; a
- (b) nid yw adran 31(2)(b) o'r Mesur yn gymwys pan fo'r amodau wedi eu torri o ganlyniad i effaith erthygl 11(1) o'r Gorchymyn hwn.

Ceisiadau i gofrestru: ceisiadau nad ydynt wedi eu penderfynu

13.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gwneud cais i gofrestru'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur ond nad yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais y person.

(2) Mae gan gais a wneir cyn y dyddiad trosglwyddo yr un effaith â chais a wneir ar y dyddiad trosglwyddo.

Atal dros dro: gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd

14.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person, sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo—

- (a) yn cael ei atal dros dro gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 40 o Reoliadau 2010;
- (b) yn cael ei atal dros dro yn wirfoddol o dan reoliad 46 o Reoliadau 2010.

(2) Paragraph (1) does not apply in respect of a person who, before the transfer date, communicated to the Welsh Ministers a request to cancel their registration as a day care provider under Part 2 of the Measure.

Conditions of registration

12.—(1) This article applies where, immediately before the transfer date, a person provides day care for children in circumstances in which, if it were to be provided on or after that date it would be contrary to that day care provider's conditions of registration imposed under section 29 of the Measure because of the effect of article 11(1) of this Order.

(2) Where a person to whom paragraph (1) applies submits an application to the Welsh Ministers to vary conditions of registration before the transfer date, the Welsh Ministers must determine that application within a period of five months of the transfer date.

(3) During the period specified in paragraph (2) —

- (a) a person who has submitted an application to vary conditions of registration is not liable to prosecution under section 29 of the Measure where the breach of conditions is a consequence of the effect of article 11(1) of this Order; and
- (b) section 31(2)(b) of the Measure does not apply where the breach of conditions is a consequence of the effect of article 11(1) of this Order.

Applications for registration: undetermined applications

13.—(1) Paragraph (2) applies where before the transfer date, a person makes an application to register as a day care provider under Part 2 of the Measure but the Welsh Ministers have not determined the person's application.

(2) An application made before the transfer date has effect as an application made on the transfer date.

Suspension: child minders and day care providers

14.—(1) This article applies where immediately before the transfer date a person registered under Part 2 of the Measure —

- (a) is suspended by the Welsh Ministers under regulation 40 of the 2010 Regulations;
- (b) is voluntarily suspended under regulation 46 of the 2010 Regulations.

(2) Nid yw gweithredu erthyglau 7(1) a 11(1) yn y Gorchymyn hwn yn effeithio ar atal cofrestriad person dros dro.

(2) The suspension of a person's registration is not affected by the operation of articles 7(1) and 11(1) in this Order.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o
Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2016

Minister for Communities and Tackling Poverty, one
of the Welsh Ministers
27 January 2016

©[©]Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 98 (Cy. 47)

2016 No. 98 (W. 47)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**


SOCIAL CARE, WALES

£6.00

W2553/02/16

ON

ISBN 978-0-348-11243-6



9 780348 112436